

## **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg Awst 2024 – Gorffennaf 2025**

### **Rhagymadrodd**

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod o **1 Awst 2024** hyd **31 Gorffennaf 2025**.

Ers 1 Ebrill 2018, mae Prifysgolion yng Nghymru yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (rhif 6) 2017 a sefydlwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae Safonau'r Gymraeg yn nodi'r disgwyliadau ar y Brifysgol i ddarparu gwasanaethau penodol yn Gymraeg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn unol â gofynion y Safonau, mae'r adroddiad blynyddol yn nodi'r modd i'r Brifysgol gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ac yn cynnwys y wybodaeth ofynnol isod.

- **Cydymffurfiaeth â'r Safonau**

Sut mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaeth, safonau polisi a safonau gweithredu yn ystod y flwyddyn.

- **Sgiliau Cymraeg y Gweithlu**

Nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw.

- **Hyfforddiant**

Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gysiau hyfforddi yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn; ac os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd fersiwn Gymraeg y cwrs.

- **Swyddi**

Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn lle gofynnwyd —

- bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol,
- bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,
- bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu
- nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

- **Cwynion**

Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â chydymffurfio â'r

safonau cyflenwi gwasanaeth, safonau polisi a safonau gweithredu.

Cymeradwywyd yr adroddiad gan Gyngor y Brifysgol i'w gyhoeddi ar ein gwefan [www.aber.ac.uk/cy/cgg](http://www.aber.ac.uk/cy/cgg)

Mae **atodiad 1** yn cynnwys disgrifiad o'r lefelau sgiliau Cymraeg (A0 - C2) a chyfeirir atynt yn yr adroddiad, ac **atodiad 2** yn cynnwys disgrifiad o'r lefelau Dysgu Cymraeg (Mynediad – Hyfedredd).

## Datblygiadau 2024-25

### **Cynllun y Gymraeg / Strategaeth 2030au**

Eleni lansiodd y Brifysgol ei strategaeth newydd - [Strategaeth 2030au](#). Un o brif flaenoriaethau'r strategaeth yw **Atgyfnerthu Cymru** - ein hymrwymiad *i feithrin Cymru sy'n ffyniannus ac sy'n estyn allan i'r byd yn Aberystwyth a'r tu hwnt ac sy'n gweithio i hyrwyddo egni'r Gymraeg*.

I gefnogi gweithredu'r strategaeth, mae ein [Cynlluniau Prifysgol](#) yn amlinellu'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud i feithrin sefydliad cynaliadwy, hyblyg, sy'n canolbwyntio ar y dyfodol.

Drwy **Gynllun y Gymraeg**, ein bwriad yw i arwain y sector ym maes addysg uwch cyfrwng y Gymraeg, gan gydweithio â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a hybu defnydd y Gymraeg ym mhob rhan o'r campws. Erbyn 2030, ein targed yw cynyddu nifer ein staff a'n myfyrwyr sy'n datblygu eu sgiliau Cymraeg o 50%.

### **Dirprwy Is-ganghellorion cynorthwyol cyfadrannol (y Gymraeg)**

Wrth i'r Brifysgol newid i strwythur dwy gyfadran o ddechrau tymor 2025-26, penodwyd rolau academaidd newydd o fewn y cyfadrannau newydd. Yn rhan o'r strwythur newydd bydd yna ddirprwy is-ganghellor cynorthwyol gyda chyfrifoldeb penodol dros y Gymraeg ym mhob cyfadran. Mae'r swyddi hyn yn gyfrifol am gyfeiriad strategol y ddarpariaeth Gymraeg yn y cyfadrannau, a'n cefnogi diwylliant dwyieithog y Brifysgol gan gynnwys digwyddiadau diwylliannol allanol perthnasol.

- **Cyfadrannol y Dyniaethau** - Mandi Morse (Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol y Cyfadran – Cymraeg)
- **Cyfadrannol y Gwyddorau** - Yr Athro Rhys Jones (Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol y Cyfadran – Cymraeg)

### **Adolygiad Monitro Cydymffurfiaeth â'r Safonau (Ymarfer Siopwr Cudd)**

Yn ystod 2025 cynhaliodd Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg ymarfer monitro mewnol er mwyn adolygu cydymffurfiaeth ein gwasanaethau â Safonau'r Gymraeg. Canolbwyntiodd yr arolwg ar ein prif wasanaethau i fyfyrwyr a'r cyhoedd. Rhoddodd yr arolwg 'giplun' i ni o gydymffurfiaeth ar draws ein gwahanol wasanaethau, a chynlluniwyd y cwestiynau i efelychu ymholiadau arferol gan fyfyrwyr a'r cyhoedd yn y meysydd isod.

- Gwasanaethau ffôn
- Gohebiaeth

- Clipiau Fideo
- Dogfennau/Ffurflenni
- Y Wefan
- Cyfrifon y Cyfryngau Cymdeithasol

Cyflwynwyd canfyddiadau'r arolwg i Grŵp Gweithredol y Gymraeg, y Weithrediaeth a Phwyllgor Llywodraethu a Diwylliant y Brifysgol. O ganlyniad i'r arolwg rydym wedi cryfhau ein sicrwydd ansawdd a chydymffurfiaeth, a byddwn yn edrych i gynnwys yr arolwg hwn yn rhan o rhaglen waith flynyddol Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.

### **Holiadur Gwasanaethau Proffesiynol**

Ers 2021, mae adrannau Gwasanaethau Proffesiynol (GP) wedi bod yn hunan asesu eu cydymffurfiaeth â'r Safonau yn flynyddol i Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg (CGG). Cwblhawyd yr ymarfer hwn ym mis Chwefror 2025 a rhannwyd y canlyniadau â Grŵp Gweithredol y Gymraeg, y Weithrediaeth a Phwyllgor Llywodraethu a Diwylliant y Brifysgol.

Roedd yr arolwg yn holi cwestiynau ynghylch pob un o feysydd amrywiol y Safonau gan gynnwys:

- Gohebu.
- Gwasanaethau ffôn.
- Cyfarfodydd / Digwyddiadau / Darlithoedd Cyhoeddus.
- Y Wefan / Cyfryngau Cymdeithasol.
- Gwasanaethau Derbynfydd.
- Arwyddion.
- Dogfennau a ffurflenni.
- Asesiadau effaith ar y Gymraeg (penderfyniadau polisi).

### **Diweddarau canllaw asesu ardrawiad effaith ar y Gymraeg (penderfyniadau polisi)**

Yn ystod 2024-25 diweddarwyd ein canllawiau, gweithdrefnau a ffurflenni asesu effaith penderfyniadau polisi o ran y Gymraeg. Mae'r canllawiau yn cynnwys dehongliad o beth yw ystyr 'Penderfyniad Polisi' yng nghyd-destun y Safonau, ac rydym hefyd wedi creu [teclyn syml](#) i gynorthwyo staff i adnabod os oes angen cwblhau asesiad ardrawiad effaith ar y Gymraeg.

### **Gwobrau Hybu'r Gymraeg**

Mae dathlu ymroddiad ac ymrwymiad myfyrwyr a staff i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn holl bwysig i'r Brifysgol. Mewn seremoni wobrwyo ar 4 Rhagfyr 2024, cyhoeddwyd enillwyr [Gwobrau Hybu'r Gymraeg Prifysgol Aberystwyth](#) wedi iddynt gael eu henwebu gan staff a myfyrwyr y Brifysgol. Yn ddysgwyr ac yn siaradwyr iaith gyntaf, yn fyfyrwyr ac yn staff, gwobrwywyd yr enillwyr ar gyfer y gwobrau canlynol:

- **Dysgwr Disglair (Staff)** – Vicki Jones
- **Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gweithle** – Dr Hanna Binks a Dr Lloyd Roderick
- **Astudio trwy'r Gymraeg (Myfyriwr)** – Ellie Norris
- **Pencampwr y Gymraeg (Myfyriwr)** – Celyn Bennett
- **Cefnogi'r Gymraeg yn y Gweithle** – Tîm Swyddfa Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol

Dyfarfwyd **Gwobr Arbennig y Panel** i Elain Gwynedd, Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA am ei holl waith yn hybu'r Gymraeg a'i diwylliant yn y Brifysgol.

Derbyniodd pob un o'r enillwyr englyn personol gan naill ai'r Athro Mererid Hopwood, Dr Eurig Salisbury (Darlithydd Ysgrifennu Creadigol o Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd), neu Dr Hywel Griffiths, (Darllenydd yn Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear y Brifysgol).

### **Hybu Addysg Cyfrwng Cymraeg**

Fel rhan o'n gwaith yn hybu addysg uwch cyfrwng Cymraeg bu 58 ymweliad ag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ystod y flwyddyn. Yn ystod haf 2025, cynhaliwyd '[Aber ar Agor](#)', sef cwrs preswyl ehangu cyfranogiad am ddim i ddisgyblion blwyddyn 12. Mynychodd 65 o ddisgyblion, ac o'r rheiny roedd 28 (43%) yn medru'r Gymraeg. Yn yr un modd cynhaliwyd diwrnod o weithgareddau ar y campws i gynorthwyo disgyblion blwyddyn 12 gyda'u prosiectau unigol fel rhan o gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Bu 3 ysgol cyfrwng Cymraeg yn ymweld â'r campws yn ystod mis Mehefin.

### **UMCA / Undeb Aberystwyth**

Yn sgil dathliadau 50 ers sefydlu Undeb Myfyrwyr Gymraeg Aberystwyth (UMCA), bu'n flwyddyn weithgar iawn yn datblygu Neuadd Pantycelyn fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau yn cynnwys Cyrsiau Cymraeg. Datblygiad arall nodedig yn ystod y flwyddyn oedd cymeradwyo cynnig Elain Gwynedd, Llywydd UMCA (2023-2025) i newid enw 'Undeb Myfyrwyr Aberystwyth Students Union' i **Undeb Aberystwyth**.

## **Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg**

### **Trefniadau Goruchwyllo**

Yn unol â'r Safonau, mae gan y Brifysgol ddogfen sy'n egluro'r camau yr ydym wedi cymryd i gydymffurfio â'r holl safonau - [Trefniadau Goruchwyllo Safonau'r Gymraeg](#)

### **Holiadur Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg (Gwasanaethau Proffesiynol)**

Ym mis Chwefror 2025, cynhaliwyd holiadur cydymffurfiaeth a derbyniwyd ymatebion gan Wasanaethau proffesiynol y Brifysgol o ran eu cydymffurfiaeth â'r Safonau (gweler tudalen 3).

### **Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg**

Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg sy'n gyfrifol am gynorthwyo adrannau'r Brifysgol i weithredu Safonau'r Gymraeg, ac maent yn cynnig cyngor i staff er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ar draws y Brifysgol. Mae'r Ganolfan yn gartref i Gangen y Brifysgol o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac yn cynnwys tîm cyfieithu sy'n darparu gwasanaeth cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd i adrannau'r Brifysgol. Ceir canllawiau ar gydymffurfio â'r Safonau ynghyd â pholisïau a strategaethau'r Brifysgol o ran hyrwyddo'r Gymraeg ar dudalen gwe [Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg](#).

## **Grŵp Gweithredol y Gymraeg**

Yn ystod y flwyddyn academaidd, cynhaliwyd tri chyfarfod o Grŵp Gweithredol y Gymraeg (**Hydref 2024, Mawrth 2025 a Mai 2025**).

Grŵp Gweithredol y Gymraeg sy'n arwain ac yn monitro Strategaethau a Pholisïau'r Brifysgol i hybu'r Gymraeg, ac yn adrodd ar gydymffurfiaeth â'r Safonau gan ddatblygu hyfforddiant a chynghor addas.

Mae Grŵp Gweithredol y Gymraeg yn derbyn diweddariad ym mhob cyfarfod ar **Strategaeth Sgiliau Dwyieithog** y Brifysgol. Mae'r adroddiadau yn cynnwys data ynghylch:

- Gofynion ieithyddol pob swydd a hysbysebwyd.
- Crynodeb o lefelau sgiliau iaith y penodiadau.
- Canran y Gweithlu (Gwasanaethau Proffesiynol) â sgiliau Cymraeg ar lefel B1 neu uwch.
- Gwybodaeth am nifer y staff ar gyrsiau Cymraeg.

## **Safonau Polisi**

Yn ystod y flwyddyn, diweddarwyd canllawiau a threfniadau'r Brifysgol o ran ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg. Rhoddwyd ddiweddariad gan Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg i benaethiaid adran ym mis Ionawr 2025 a rhannwyd y diweddariad gyda staff drwy'r bwletin wythnosol. Yn ogystal, [datblygwyd teclyn newydd](#) er mwyn adnabod pa benderfyniadau sydd yn debygol o fod angen asesiad effaith ar y Gymraeg. Mae'r [ffurflen asesu ardrawiad effaith ar y Gymraeg](#) hefyd wedi ei diweddarau yn dilyn ymgynghoriad â Grŵp Gweithredol y Gymraeg.

Yn ystod 2024-25 cynhaliodd y Brifysgol adolygiad o Wasanaethau Proffesiynol, ac fel rhan o'r broses, roedd pob achos busnes yn cael ei asesu o ran effaith ar y Gymraeg. Yn dilyn ymgynghoriadau ac apwyntiadau i swyddi, bydd y Brifysgol yn parhau i ystyried unrhyw effaith ar wasanaethau Cymraeg, yn ogystal ag unrhyw gamau pellach fydd o bosib eu hangen. Bydd y gwaith yma'n parhau yn 2025-26.

## **Datblygu neu Addasu darpariaeth Academaidd**

Fe wnaeth y Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg gyfarfod dair gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd. Yn un o is-bwyllgorau'r Bwrdd Academaidd, cadeirir y pwyllgor gan y Dirprwy Is-ganghellor gyda gofal am y ddarpariaeth academaidd Cymraeg. Yn unol â gofynion Safon 104, mae gweithdrefn glir wedi ei sefydlu er mwyn ystyried yr effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg gydag unrhyw gynigion i newid y ddarpariaeth academaidd.

## **Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg**

Mae ein [Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg](#) yn adeiladau ar ymrwymadau ein Cynllun Strategol a thraddodiad y Brifysgol o gefnogi dwyieithrwydd yn y gweithle. Mae'r polisi yn nodi ymrwymadau'r Brifysgol o ran gweithredu'n ddwyieithog a chefnogi staff i

ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.

### Targedau'r Polisi

- **90% o'r staff sy'n rhugl yn y Gymraeg yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol yn y gwaith (B2-C2), a**
- **50% o'r staff sy'n dysgu'r iaith neu nad ydynt yn ystyried eu hunain yn rhugl (A1-B1) yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol yn y gwaith.**
- **50% o weithlu Gwasanaethau Proffesiynol y Brifysgol yn medru'r Gymraeg (ar Lefel B1-C2) erbyn 2029.**

Cynhelir arolygon defnydd iaith staff bob dwy flynedd, a byddwn yn cynnal yr arolwg nesaf yn ystod **2025-26**.

Ar **31 Gorffennaf 2025** roedd gan **39.7%** (414/1044) o weithlu Gwasanaethau Proffesiynol sgiliau Cymraeg ar Lefel B1 neu uwch. Sylwer:: mae'r ffigur hwn yn cynrychioli unigolion nid contractau, ac mae'r ganran yn cynrychioli'r staff sydd wedi nodi eu sgiliau iaith ar Pobl Aber yn unig (sef **94.2%** o staff Gwasanaethau Proffesiynol). Mae **atodiad 1** yn cynnwys disgrifiad o'r lefelau sgiliau Cymraeg (A0 - C2).

## Swyddi

Hysbysebwyd **238** o swyddi gan Brifysgol Aberystwyth rhwng 1 Awst 2024 a 31 Gorffennaf 2025 (ac eithrio swyddi llai na 3 mis, a swyddi 'AberYmlaen' a 'GwaithAber').

Categori	Nifer	%
<b>Sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol (A1-C2).</b> <i>Swyddi â sgiliau Cymraeg (llafar) yn hanfodol ar lefel A1 neu uwch.</i>	<b>119</b>	<b>50.0%</b>
<b>Swyddi lle nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.</b> <i>Swyddi lle nad oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol (A0). Mae'r gallu i ddeall natur ddwyieithog y Brifysgol ac ymwybyddiaeth o'r trefniadau sydd mewn lle i gefnogi gweithio yn ddwyieithog, yn ofyniad hanfodol ar holl swyddi A0 sydd heb ofyniad ieithyddol.</i>	<b>119</b>	<b>50.0%</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>238</b>	<b>100%</b>
Categori	Nifer	%
<b>Sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol.</b> <i>O'r 119 swydd lle nad oedd Sgiliau'r Gymraeg yn hanfodol (swyddi A0), nifer a chanran y swyddi â'r Gymraeg (llafar) yn ddymunol ar lefel A1 neu uwch.</i>	<b>100</b>	<b>84.0%</b>

Asesir swyddi ar gyfer gofynion iaith drwy system *E-Recruiter* a chaiff swyddi eu gwirio gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn unol â Strategaeth Sgiliau Dwyieithog y

Brifysgol a gofynion Safon 145.

Hysbysebhir pob swydd yn ddwyieithog ac mae pob swydd yn nodi un ai bod lefel penodol o'r Gymraeg yn sgil hanfodol neu ddymunol (A1-C2), neu fe ofynnir am ymwybyddiaeth o natur ddwyieithog y Brifysgol pan nad yw'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn ofyniad hanfodol (A0).

Noder, ar rai hysbysebion swyddi Cymraeg hanfodol ar lefel B1 neu is, caniateir i ymgeiswyr nodi “*tystiolaeth i ddangos ymrwymiad parhaus i ddysgu Cymraeg i'r lefel hon*” a chefnogir yr ymgeiswyr hynny i fynychu gwersi Cymraeg. Mae hyn er mwyn parhau i ddatblygu sgiliau Cymraeg staff a chapasiti sgiliau dwyieithog timau.

Mae disgrifiad pob swydd yn cynnwys y datganiad canlynol.

*Mae'r Brifysgol yn sefydliad dwyieithog sy'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac sy'n ymroddedig i Gyfle Cyfartal. Mae sgiliau Cymraeg yn gaffaeliad i ni, ac rydym yn annog a chynorthwyo ein staff i ddysgu Cymraeg ac i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau iaith yn y gweithle. Mae croeso i chi wneud cais am unrhyw swydd yn Gymraeg neu yn Saesneg a bydd pob cais a gyflwynir yn cael ei drin yn gyfartal.*

## Cwynion

Derbyniwyd **2** gwyn ffurfiol mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.

Dosbarth o Safonau	Cwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	<b>2</b>
Safonau Llunio Polisi	<b>0</b>
Safonau Gweithredu	<b>0</b>

Roedd y cwynion yn ymwneud â gohebiaeth i ddarpar fyfyrwyr a phamffled prosiect ymchwil. Cafwyd datrysiadau i'r cwynion hyn ar gam 1 a cham 2 o weithdrefn gwynion y Brifysgol. Ceir manylion ynglŷn â gweithdrefn gwyno'r Brifysgol o ran Safonau'r Gymraeg ar ein [gwefan](#). Mae Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant y Brifysgol yn derbyn adroddiadau blynyddol yn nodi manylion cwynion ddaeth i law yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg.

### Camau Gwella

Cyflwynwyd gamau gwella a chywiriadau i systemau o ganlyniad i'r cwynion a bydd CGG yn edrych i gyflwyno canllawiau ar ofynion dwyieithrwydd mewn perthynas a chyhoeddiadau a deunydd ymchwil. Yn ogystal â chwynion, mae GCC yn edrych i ddatrys materion sy'n codi o adborth staff, myfyrwyr a'r cyhoedd yn anffurfiol.

## Sgiliau Cymraeg y Gweithlu

Ar **31 Gorffennaf 2025** dadansoddwyd gwybodaeth am sgiliau iaith yr holl staff sydd â'u manylion wedi eu diweddarau. Defnyddir Fframwaith cyfeirio Cyffredin Ewrop (CEFR) ar gyfer y lefelau – Gweler **atodiad 1**.

Nifer y Staff â Sgiliau Cymraeg (31 Gorffennaf 2025)				
Lefel	Nifer Llafar	% Llafar	Nifer Ysgrifenedig	% Ysgrifenedig
A0	613	33.83%	744	41.06%
A1	334	18.43%	279	15.40%
A2	160	8.83%	114	6.29%
B1	118	6.51%	139	7.67%
B2	126	6.95%	130	7.17%
C1	108	5.96%	84	4.64%
C2	271	14.96%	215	11.87%
Heb gofnodi	82	4.53%	107	5.91%
<b>Cyfanswm</b>	<b>1812</b>	<b>100.00%</b>	<b>1812</b>	<b>100.00%</b>

Mae'r tabl canlynol yn cymharu data adroddiad blynyddol llynedd (31 Gorffennaf 2024) â data eleni (31 Gorffennaf 2025).

Cymhariaeth rhwng 31 Gorffennaf 2024 a 31 Gorffennaf 2025				
Lefel	Nifer Llafar	% Llafar	Nifer Ysgrifenedig	% Ysgrifenedig
A0	-26	+0.18%	-32	+0.20%
A1	-19	-0.16%	-19	-0.29%
A2	-10	-0.12%	+5	+0.55%
B1	-7	-0.07%	-8	-0.07%
B2	-15	-0.47%	-22	-0.83%
C1	+1	+0.33%	+9	+0.69%
C2	-1	+0.64%	+2	+0.65%
Heb gofnodi	-10	-0.31%	-22	-0.88%
<b>Cyfanswm</b>	<b>-87</b>		<b>-87</b>	

Mae'r gwahaniaeth canrannol ar gyfer pob lefel (A0–C2) yn adlewyrchu'r newid yng nghyfran y staff sydd â sgiliau Cymraeg ar y lefelau hyn rhwng 2024 a 2025. Golygai hyn y gall y ganran gynyddu hyd yn oed os yw nifer y staff ar lefel penodol wedi lleihau. Mae

hyn oherwydd fod y newid yn seiliedig ar gyfran gymharol pob lefel yn hytrach na'r cyfanswm.

## Hyfforddiant (Safon 135)

### Cyrsiau Iechyd a Diogelwch

Cynhaliwyd y sesiynau hyfforddiant Iechyd a Diogelwch cyfrwng Cymraeg canlynol i staff yn ystod y flwyddyn.

Cwrs	Nifer y Cyrsiau	Dyddiadau	Nifer yn Mynychu	% y Staff fynychodd y cwrs yn Gymraeg
Asesiad Risg	2	14/10/2024 11/12/2024	8	11.8%
Wardeniaid Tân	2 (wedi'u cynnig)	Canslwyd oherwydd nifer y cofrestrïadau		

### Cyrsiau Hyfforddiant eraill

Cynigwyd y cyrsiau hyfforddiant cyfrwng Cymraeg isod yn ystod y flwyddyn.

Cwrs	Nifer yn Mynychu	Dyddiadau	% y Staff fynychodd y cwrs yn Gymraeg	% y Staff fynychodd y cwrs yn Saesneg
Deall sut i gefnogi staff drwy absenoldebau salwch	96	02/06/25 - 13/06/25	16 (16.7%)	80 (87.3%)

Tu hwnt i'r meysydd uchod, mae staff hefyd wedi cwblhau'r cyrsiau hyfforddiant canlynol sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cwrs	Nifer a gwblhaodd yr hyfforddiant yn Gymraeg
Diogelu Data (GDPR)	61
Gweithio o Bell	64
Peirianeg Gymdeithasol (Seibir Ddiogelwch)	62
Rhagfarn Ddiarwybod	2
Amrywiaeth yn y Gweithle	13
Ymwybyddiaeth Dyletswydd Prevent	26
Gadewch i ni siarad am Hil yn y Gweithle	9
Gwe-rwydo	65

## Hyfforddiant Dysgu Cymraeg

Gweler disgrifiadau'r lefelau Dysgu Cymraeg yn **atodiad 2**.

### Cyrsiau 'Cymraeg Gwaith' 2024-25

Caiff y Cynllun Cymraeg Gwaith ei ariannu drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol o dan nawdd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Nod y cynllun yw gwella sgiliau Cymraeg yn y gweithle, gyda phwyslais penodol ar gymhwyso'r hyn a ddysgir yn y gweithle, boed yn swyddi academaidd neu wasanaethau proffesiynol.

Roedd gofyn i'r staff gwblhau 60 awr y flwyddyn o ddysgu, er mwyn cwblhau lefel, drwy gyfuniad o gyrsiau wythnosol (2 awr yr wythnos fel arfer). Yn ychwanegol cynigwyd sesiynau cefnogi un i un gan diwtor, astudio annibynnol a mynychu cyrsiau undydd). Yn rhan o'r cynllun cynigir mentor (aelod arall o staff sy'n siarad Cymraeg o fewn y Brifysgol) i gefnogi'r dysgu ac opsiwn i fynychu Sesiynau Sgwrsio / Cinio Cymraeg.

Cwrs	Nifer y staff wedi cofrestru / dechrau cwrs Cymraeg Gwaith	Nifer y staff wedi cwblhau cwrs Cymraeg Gwaith	Dilyniant (Nifer y staff oedd yn dysgu ar gyrsiau CG 2023/24)
Mynediad 1	10	8	-
Mynediad 2	12	11	7
Mynediad Hunan-Astudio	4	3	1
Sylfaen Hunan-Astudio	9	8	8
Sylfaen 1	7	6	4
Sylfaen 2	8	7	4
Canolradd 2	8	7	5
Uwch 1 (rhan 1)	7	6	5
Uwch 2 (rhan 1)	4	4	3
Cymraeg Gwaith +	4	4	-
<b>CYFANSWM</b>	<b>73</b>	<b>64</b>	<b>37</b>

### Cyrsiau Cymraeg yn y Gymuned

Mynychodd nifer o staff ddosbarthiadau yn y gymuned hefyd fel a ganlyn:

Lefel y Cwrs Cymunedol	Nifer Awst 2024 – Gorffennaf 2025
Mynediad	27 *
Sylfaen	11
Canolradd	5
Uwch	6

Gloywi	2
Cwrs Haf Dwys 2025	10
Cymraeg yn y Cartref	5
Prosiect Rhieni Ysgolion Ceredigion	9
Cyrsiau Atodol	11
Unigolyn ar gwrs Coleg Cambria	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>87</b>

Noder, mae rhai dysgwyr yn cofrestru ar fwy nag un cwrs e.e. cwrs yn y gymuned a chwrs atodol, neu gwrs Cymraeg Gwaith a'r Cwrs Haf Dwys.

### **Cyrsiau Byr i Staff**

Cynhaliwyd cwrs byr 5 wythnos (1 awr amser cinio) i staff yn ystod Tymor y Gwanwyn 2025 fel a ganlyn:

<b>Lefel y Cwrs Byr</b>	<b>Nifer y cofrestrïadau</b>
Blasu	11

Roedd nifer o'r dysgwyr lefel Blasu yn awyddus i barhau i lefel Mynediad 1 felly trefnwyd cwrs dilyniant iddyn nhw ar gyfer mis Medi 2025 o fewn y cynllun Cymraeg Gwaith.

## **Manylion Cyswllt**

### **Dylan Hughes**

Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg

### **Lowri Angharad Jones**

Swyddog Datblygu Gwasanaethau Cymraeg

### **Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg**

Prifysgol Aberystwyth,

[www.aber.ac.uk/cy/cgg](http://www.aber.ac.uk/cy/cgg)

[CanolfanGymraeg@aber.ac.uk](mailto:CanolfanGymraeg@aber.ac.uk)

## Atodiad 1 - Lefelau Iaith Gymraeg (A0–C2)

Lefel iaith	Siarad (rhyngweithio a chynhyrchu)	Ysgrifennu
<b>A0</b>	Nid wyf yn medru siarad Cymraeg o gwbl.	Nid wyf yn medru ysgrifennu Cymraeg o gwbl.
<b>A1</b>	<p>Rwy'n gallu :</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>rhyngweithio mewn ffordd syml ar yr amod bod y person arall yn barod i siarad yn araf, ailadrodd neu aralleirio pethau, ynghyd â bod yn barod i'm helpu.</li> <li>defnyddio ymadroddion a brawddegau syml e.e. cyflwyno fy hunan neu berson arall,</li> <li>gofyn ac ateb cwestiynau cyfarwydd e.e. 'Ble dych chi'n byw?'</li> </ul>	<p>Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>ysgrifennu neges fer syml ar ffurf e-bost neu nodyn, gan gynnwys yr amser, y dyddiad a'r lleoliad.</li> <li>llenwi ffurflenni â'm manylion personol, e.e. enw, cyfeiriad a rhif ffôn.</li> </ul>
<b>A2</b>	<p>Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>siarad mewn iaith syml ar bynciau cyfarwydd.</li> <li>cymryd rhan mewn sgysiau cymdeithasol byr iawn, hyd yn oed er nad ydwyf fi, fel arfer, yn gallu cadw'r sgwrs i fynd ohoni'i hunan.</li> <li>defnyddio cyfres o ymadroddion i ddisgrifio ac ateb cwestiynau am fy nheulu a phobl eraill, y tywydd.</li> <li>trosglwyddo cyfarwyddiadau neu negeseuon ffôn syml.</li> </ul>	<p>Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>ysgrifennu nodiadau syml byr, gan gysylltu brawddegau syml â chysyllteiriau syml fel 'a', 'ond' ac 'oherwydd'.</li> <li>ysgrifennu llythyr neu e-bost syml iawn, e.e. yn diolch i rywun am wneud rhywbeth.</li> </ul>
<b>B1</b>	<p>Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>manteisio ar ystod eang o iaith syml i ddelio â'r rhan fwyaf o sefyllfaoedd sy'n debygol o godi yn fy ngwaith.</li> <li>deall ystyr gyffredinol e-byst a llythyrau yn ymwneud â'm maes diddordeb, ynghyd â llythyrau damcaniaethol o fewn cwmpas fy ngwaith.</li> <li>dechrau sgwrsio'n fyrfyr ar bynciau sy'n gyfarwydd imi, e.e. teulu, diddordebau, gwaith, teithio a digwyddiadau cyfredol.</li> <li>cynnig cyngor ar faterion syml, i gleientiaid o fewn cwmpas fy ngwaith.</li> </ul>	<p>Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>cymryd nodiadau gweddol gywir mewn cyfarfodydd neu seminarau lle mae'r pwnc yn un cyfarwydd ac yn rhagweladwy.</li> <li>ysgrifennu llythyrau neu e-byst yn disgrifio digwyddiadau, profiadau ac argraffiadau</li> <li>ysgrifennu memoranda neu e-byst anffurfiol i gyflwyno gwybodaeth.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• disgrifio profiadau a digwyddiadau, gobeithion ac uchelgeisiau.</li> <li>• rhoi rhesymau ac esboniadau am fy marnau a'm cynlluniau, yn gwta.</li> </ul>	
<b>Lefel Iaith</b>	<b>Siarad (rhyngweithio a chynhyrchu)</b>	<b>Ysgrifennu</b>
<b>B2</b>	<p>Rwy'n gallu :</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwrandao ar, deall a chyfrannu at drafodaethau mewn cyfarfodydd a seminarau.</li> <li>• cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau o fewn cyd-destunau cyfarwydd.</li> <li>• mynegi barn yn glir.</li> <li>• cyflwyno disgrifiadau manwl a chdir ar ystod eang o bynciau yn ymwneud â'm gwaith ,</li> <li>• ehangu a chefnogi syniadau â phwyntiau atodol ac enghreifftiau perthnasol.</li> <li>• egluro safbwynt ar bwnc cyfoes gan roi manteision ac anfanteision y gwahanol opsiynau.</li> <li>• rhoi cyflwyniad clir ar bynciau cyfarwydd.</li> </ul>	<p>Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ysgrifennu darnau byr o ohebiaeth fusnes, ar ffurf llythyr neu e-bost, ar ystod eang o bynciau sy'n ymwneud â'm gwaith neu fy maes diddordeb, a hynny mewn Cymraeg safonol heb ddefnyddio templed (ond gan ddefnyddio gwirydd sillafu, geiriadur, adnoddau technegol a.y.b. pan fo angen).</li> <li>• cymryd nodiadau neu ysgrifennu adroddiadau, gan drosglwyddo gwybodaeth neu roi rhesymau o blaid neu yn erbyn safbwynt arbennig.</li> </ul>
<b>C1</b>	<p>Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• mynegi fy hunan yn rhugl ac yn ddigymell.</li> <li>• defnyddio iaith yn hyblyg ac yn effeithiol at ddibenion cymdeithasol a phroffesiynol, gan gyfrannu'n hyderus at gyfarfodydd a chyflwyniadau ar lafar.</li> <li>• ffurfio syniadau a barnau, gan sicrhau bod fy nghyfraniadau'n berthnasol i siaradwyr eraill.</li> <li>• ymateb yn briodol i sefyllfaoedd diwylliannol a chymdeithasol gwahanol.</li> <li>• cyflwyno disgrifiadau clir a manwl o bynciau cymhleth gan gyflwyno is-themâu, gan ddatblygu pwyntiau penodol, ynghyd â chloi'r cyflwyniad â chasgliad priodol.</li> </ul>	<p>Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ysgrifennu testunau wedi'u strwythuro'n glir, ynghyd â mynegi safbwyntiau am gyfnod hir.</li> <li>• ysgrifennu esboniadau manwl ar bynciau cymhleth ar ffurf e-bost, llythyr, traethawd neu adroddiad, gan danlinellu'r materion perthnasol.</li> <li>• ysgrifennu gwahanol fathau o destunau mewn arddulliau sy'n briodol i'r gynulleidfa sydd mewn golwg.</li> </ul>

<p><b>C2</b></p>	<p>Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• deall adroddiadau ac erthyglau yr wyf yn dod ar eu traws yn fy ngwaith, gan gynnwys syniadau cymhleth wedi'u mynegi mewn iaith gymhleth.</li> <li>• cymryd rhan yn ddiymdrech mewn trafodaeth.</li> <li>• mynegi fy hunan yn rhugl a chyfleu arlliwiau ystyr yn gywir.</li> <li>• addasu ac ailstrwythuro fy nghyfraniad wrth imi gwrdd ag unrhyw anhawster a wynebwr, mor esmwyth fel braidd nadyw pobl eraill yn ymwybodol ohono.</li> <li>• cynghori ar faterion cymhleth, anodd a chynhennus megis materion cyfreithiol neu ariannol, i'r graddau y mae fy ngwybodaeth arbenigol yn ymestyn.</li> <li>• cyflwyno disgrifiadau neu ddadleuon yn dda, yn llyfn ac yn glir, yn y cywair sy'n briodol i'r cyd-destun, ac sydd â strwythur rhesymegol ac effeithiol sy'n helpu i dynnu sylw'r sawl sy'n gwrandao ar y pwyntiau arwyddocaol.</li> </ul>	<p>Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cymryd nodiadau llawn a chywir a pharhau i gymryd rhan mewn cyfarfodydd a seminarau.</li> <li>• ysgrifennu testunau wedi'u strwythuro'n dda ac yn llyfn ac yn y cywair priodol.</li> <li>• ysgrifennu adroddiadau neu erthyglau technegol gymhleth strwythuredig sy'n helpu i dynnu sylw'r sawl sy'n darllen, at y pwyntiau arwyddocaol.</li> <li>• ysgrifennu adolygiadau o weithiau proffesiynol a/neu rai llenyddol.</li> </ul>
------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

## Atodiad 2 – Cysiau Dysgu Cymraeg yng nghyd-destun Lefel Dysgu Fframwaith Cyngor Ewrop

Enw'r Lefel	Disgrifiad	Lefel dysgu Fframwaith Cyngor Ewrop	Isafswm oriau cyswllt a argymhellir
<b>Mynediad</b>	Cysiau ar gyfer dechreuwyr, sy'n cyflwyno geirfa a phatrymau iaith syml ac ymadroddion pob dydd. Mae'r pwyslais ar siarad yr iaith.	A1	120
<b>Sylfaen</b>	Mae'r lefel hon yn adeiladu ar lefel Mynediad ac yn gofyn am rywfaent o brofiad o'r Gymraeg. Mae'r prif bwyslais ar siarad yr iaith, gyda chyfle i drafod pynciau pob dydd fel y teulu a ffrindiau, gwaith a diddordebau.	A2	120
<b>Canolradd</b>	Mae'r lefel hon yn adeiladu ar lefel Sylfaen ac yn addas ar gyfer pobl sy'n gyfarwydd â phrif batrymau'r Gymraeg. Mae cyfle i ddatblygu sgiliau sgwrsio, gydag ychydig mwy o waith ysgrifennu, darllen a gwrando. Meithrin siaradwyr hyderus wrth drafod materion pob dydd yw'r prif nod.	B1	120
<b>Uwch</b>	Dyma gyfle i ymarfer trafod pynciau a themâu o bob math. Bydd dysgwyr hefydyn datblygu eu sgiliau darllen, ysgrifennu agwrando. Meithrin siaradwyr hyderus yw'r prif nod.	B2	360*
<b>Gloywi</b>	Mae'r cysiau Hyfedredd, sy'n addas ar gyfer dysgwyr rhugl a siaradwyr iaith gyntaf, yn cael eu teilwra ar gyfer anghenion y dosbarth. Y nod cyffredinol yw datblygu sgiliau presennol y myfyrwyr ymhellach a'u helpu i fagu hyder.		

Canolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol

<https://learnwelsh.cymru/media/10645/ad-blyn-2020-darllen-spreads.pdf>

\* Mae tri cwrs ar lefel Uwch – U1, U2 a U3 (120 awr yr un)